## Amodau'r Contract

Dim ond gyda chytundeb ysgrifenedig y Cleient y gellir newid yr amodau hyn. Ni fydd unrhyw delerau nac amodau a gyflwynir ar unrhyw adeg gan y Contractwr yn rhan o'r Contract o gwbl.

### 1. Diffiniadau

1.1. Yn yr amodau hyn:

Mae '**Cleient**' yn golygu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) (a adwaenir fel "Medr") a sefydlwyd yn unol â Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022;

Mae '**Contractwr**' yn golygu'r person, ffŷrm neu gwmni y dyroddir yr Archeb Brynu iddynt;

Mae '**Gwasanaethau**' yn golygu'r gwasanaethau sydd i'w darparu fel a nodir yn yr Archeb Brynu a byddant yn cynnwys, lle mae'r cyd-destun yn caniatáu hynny, unrhyw ddeunyddiau, eitemau a nwyddau sydd i'w cyflenwi yn ôl y gofynion hynny y cyfeirir atynt o hyn allan fel '**y Nwyddau**';

Mae '**Mangre**' yn golygu'r lleoliad lle bydd y gwasanaethau'n cael eu cyflawni, fel a nodir yn yr Archeb Brynu

### 2. Amrywio'r Nwyddau a Gwasanaethau

2.1. Ceidw'r Cleient yr hawl, trwy hysbysu'r Contractwr, i addasu ansawdd neu nifer y Nwyddau a Gwasanaethau a gwneud unrhyw newid i'r pris neu'r dyddiad cwblhau. Bydd yr addasiad hwnnw'n cael ei gytuno rhwng y partïon yn ysgrifenedig. Yn niffyg cytundeb bydd y mater yn cael ei benderfynu trwy ddatrys anghydfod yn unol â darpariaethau Amod 26.

### 3. Y Nwyddau

3.1. Bydd y Nwyddau wrth fodd rhesymol y Cleient a byddant yn cydymffurfio ym mhob ffordd ag unrhyw fanylion a nodir yn y Contract hwn ac mewn unrhyw amrywiadau iddo.

3.2. Bydd y Nwyddau'n cydymffurfio ym mhob ffordd â gofynion unrhyw statudau, gorchmynion, rheoliadau neu is-ddeddfau sydd mewn grym o bryd i'w gilydd.

3.3. Bydd y Nwyddau'n addas ac yn ddigon at y diben y defnyddir y nwyddau hynny ar ei gyfer fel arfer ac at unrhyw ddiben penodol a wneir yn hysbys i'r Contractwr gan y Cleient ac mae'r Cleient yn dibynnu ar sgil a chrebwyll y Contractwr wrth gyflenwi'r Nwyddau a chyflawni'r Contract.

### 4. Archwilio'r Fangre a Natur y Gwasanaethau

4.1. Tybir bod y Contractwr wedi archwilio'r Fangre er mwyn bod wedi deall natur a hyd a lled y Gwasanaethau sydd i'w cyflawni ac wedi'i sicrhau ei hun ynghylch yr holl faterion sy'n gysylltiedig â'r Gwasanaethau a'r Fangre. Bydd unrhyw gostau

a geir gan y Cleient oherwydd methiant y Contractwr i archwilio yn unol â'r cymal hwn yn cael eu hysgwyddo gan y Contractwr.

4.2. Bydd y Cleient, ar gais y Contractwr, yn caniatáu pa bynnag fynediad sy'n rhesymol at y diben hwn.

## 5. Y Pris

5.1. Bydd pris y Nwyddau neu Wasanaethau fel a nodir ar yr Archeb Brynu ac oni nodir yn wahanol, bydd yn cynnwys TAW. Ni fydd y Cleient yn derbyn unrhyw gynnydd oni bai ei fod wedi cael ei gytuno ganddo yn ysgrifenedig cyn cyflawni'r Archeb Brynu.

5.2. Oni bai y cytunwyd fel arall yn ysgrifenedig gan y Cleient, bydd y Contractwr yn rhoi anfoneb ar wahân mewn perthynas â phob cyflenwad a ddanfonir dan yr Archeb Brynu hon. Bydd taliad yn ddyledus 10 niwrnod ar ôl derbyn y Nwyddau neu'r anfoneb gywir amdanynt, pa un bynnag yw'r hwyraf.

5.3. Bydd Treth Ar Werth, lle y bo'n berthnasol, yn cael ei dangos ar wahân ar bob anfoneb fel tâl net llwyr.

5.4. Y Contractwr fydd yn gyfrifol am roi cyfrif i Cyllid a Thollau EF am yr holl drethi a thollau perthnasol boed ar incwm neu wariant.

## 6. Statws y Contractwr

6.1. Wrth gyflawni'r Gwasanaethau bydd y Contractwr yn gweithredu fel penadur ac nid asiant y Cleient. Yn unol â hynny:

(a) ni fydd y cleient yn dweud na gwneud (a bydd yn sicrhau nad yw ei asiantau a'i gyflogeion yn dweud na gwneud) unrhyw beth a allai beri i unrhyw berson arall gredu bod y Contractwr yn gweithredu fel asiant y Cleient, a;

(b) ni fydd unrhyw beth yn y Contract hwn yn gosod unrhyw rwymedigaeth ar y Cleient mewn perthynas ag unrhyw rwymedigaeth a gafwyd gan y Contractwr i unrhyw berson arall ond ni ddylid cymryd nad yw hyn yn cynnwys unrhyw rwymedigaeth neu fod hyn yn cyfyngu ar unrhyw rwymedigaeth gan y Cleient i'r Contractwr a all godi yn rhinwedd naill ai torri'r Contract hwn neu unrhyw esgeulustod ar ran y Cleient, ei staff neu ei asiantau.

## 7. Eiddo a Risg

7.1. Mae'r risg o ddifrod i'r Nwyddau neu o golli'r Nwyddau, heb beryglu unrhyw hawliau neu iawnau sydd gan y Cleient (gan gynnwys hawliau ac iawnau'r Cleient dan Amod 8 yn y telerau ac amodau hyn) yn trosglwyddo i'r Cleient ar adeg eu danfon.

7.2. Bydd yr eiddo yn y Nwyddau'n trosglwyddo i'r Cleientiaid pan gânt eu danfon, oni bai y gwneir taliad am y Nwyddau cyn eu danfon, ac os felly bydd yn pasio i'r Cleient unwaith y mae'r taliad wedi cael ei wneud a'r Nwyddau wedi cael eu priodoli.

## 8. Difrod ar y Daith

8.1. Pan fydd yn anfon unrhyw gyflenwad o'r Nwyddau bydd y Contractwr yn anfon at y Cleient yn y cyfeiriad ar gyfer danfon y Nwyddau hysbysnod sy'n manylu ar y dull cludo, y lle a'r dyddiad anfon, nifer y pecynnau a'u pwysau a'u cyfaint. Bydd y Contractwr, yn rhad ac am ddim, a chyn gynted â phosibl, naill ai'n hysbysu ynghylch neu'n disodli (fel y dewisa'r Cleient) unrhyw Nwyddau sydd naill ai wedi cael eu difrodi ar y daith neu, a hwythau wedi cael eu hanfon ar y daith, wedi methu â chael eu danfon at y Cleient, ar yr amod:

(a) yn achos difrod i'r Nwyddau hynny ar y daith, bod y Cleient, o fewn 30 diwrnod i'w danfon, yn hysbysu'r Contractwr bod y Nwyddau wedi cael eu difrodi;

(b) yn achos peidio â danfon, bod y Cleient (ar yr amod bod y Cleient wedi cael ei hysbysu bod y Nwyddau wedi cael eu hanfon), o fewn deng niwrnod i'r dyddiad anfon yr hysbyswyd yn ei gylch, yn hysbysu'r Contractwr bod y Nwyddau heb gael eu danfon.

## 9. Archwilio, Gwrthod a Gwarant

9.1. Bydd y Contractwr yn caniatáu i'r Cleient neu ei gynrychiolwyr awdurdodedig gynnal unrhyw archwiliadau neu brofion y gall yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol eu cynnal a bydd y Contractwr yn darparu'r holl gyfleusterau a chynhorthwy rhesymol yn rhad ac am ddim yn ei fangre. Ni fydd unrhyw fethiant i gyfleu cwyn ar adeg archwiliad neu brofiad o'r fath ac ni fydd unrhyw gymeradwyaeth a roddwyd yn ystod neu ar ôl profion neu archwiliadau o'r fath yn gyfystyr ag ildio unrhyw hawliau neu iawnau mewn perthynas â'r Nwyddau gan y Cleient.

9.2. Gall y Cleient, trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Contractwr, wrthod unrhyw Nwyddau sy'n methu ag ateb y gofynion a nodir yma. Bydd unrhyw hysbysiad o'r fath yn cael ei roi o fewn amser rhesymol ar ôl i'r Nwyddau dan sylw gael eu danfon i'r Cleient. Os digwydd i'r Cleient wrthod unrhyw un neu unrhyw rai o'r Nwyddau, yn unol â'r Amod hwn bydd gan y Cleient hawl (heb beryglu ei hawliau ac iawnau eraill) naill ai:

(a) bod y Nwyddau dan sylw naill ai'n cael eu hatgyweirio gan y Contractwr neu (fel y dewisa'r Cleient) yn cael eu disodli gan y Contractwr â Nwyddau sy'n cydymffurfio ym mhob ffordd â'r gofynion a nodir yma, a hynny cyn gynted â phosibl; neu

(b) i gael ad-daliad gan y Contractwr mewn perthynas â'r nwyddau dan sylw.

9.3. Y cyfnod gwarant sy'n berthnasol i'r Nwyddau fydd 12 mis o'u rhoi ar waith (h.y. y dyddiad pan gaiff y Nwyddau eu defnyddio neu eu gweithredu gyntaf gan y Cleient at eu diben bwriadedig) neu 18 mis o'r dyddiad pan gaiff y Nwyddau eu danfon yn ffisegol i leoliad danfon penodedig y Cleient, pa un bynnag yw'r byrraf (yn amodol ar unrhyw drefniadau gwarant amgen y cytunir arnynt yn ysgrifenedig rhwng y Cleient a'r Contractwr). Os digwydd i'r Cleient, o fewn y cyfnod gwarant hwnnw neu o fewn 30 diwrnod wedi hynny, hysbysu'r Contractwr yn ysgrifenedig am unrhyw ddiffyg yn unrhyw un neu unrhyw rai o'r Nwyddau sydd wedi codi yn ystod y cyfnod gwarant hwnnw yn ystod defnydd priodol ac arferol bydd y Contractwr (heb beryglu unrhyw hawliau ac iawnau eraill a all fod gan y Cleient) yn mynd ati cyn gynted â phosibl i wneud iawn am y diffygion hynny (boed trwy eu hatgyweirio neu ddisodli fel y dewisa'r Cleient) heb gost i'r Cleient

9.4. Bydd unrhyw Nwyddau a wrthodir neu a ddychwelir gan y Cleient fel a ddisgrifir ym mharagraff 9.2 yn cael eu dychwelyd at y Contractwr ar fenter a thraul y Contractwr. Bydd eiddo yn y Nwyddau'n trosglwyddo'n ôl i'r Contractwr ar yr adeg y dychwelir y Nwyddau i'r Contractwr am unrhyw reswm dan gymal 9.

## 10. Labelu a Phecynnu

10.1. Bydd y Nwyddau'n cael eu pacio a'u marcio mewn modd iawn a phriodol ac yn unol â chyfarwyddiadau'r Cleient ac unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion sydd gan y cludwyr. Yn arbennig, bydd y Nwyddau wedi'u marcio â'r Rhif Archeb, y pwysau net, crynswth a gweili, bydd enw'r cynnwys wedi'i farcio'n eglur ar bob cynhwysydd a bydd gan bob cynhwysydd sy'n dal nwyddau peryglus (a'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â hwy) rybuddion amlwg a digonol arnynt. Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient rhag yr holl gamau cyfreithiol, achosion cyfreithiol, hawliadau, gorchmynion, colledion, taliadau, costau a threuliau y gall y Cleient eu dioddef neu eu cael o ganlyniad i dorri neu mewn cysylltiad â thorri'r Amod hwn mewn unrhyw ffordd.

10.2. Bydd yr holl ddeunyddiau pacio'n cael ei ystyried yn ddeunydd nas dychwelir oni bai bod hysbysnod y Contractwr yn nodi y byddir yn codi am y deunyddiau hynny oni chânt eu dychwelyd. Nid yw'r Cleient yn derbyn unrhyw rwymedigaeth mewn perthynas â deunyddiau pacio gwag a ddychwelwyd gan y Cleient sy'n peidio â chyrraedd mangre'r Contractwr oni bai bod y Contractwr, o fewn deng niwrnod i gael ei hysbysu gan y Cleient bod y deunyddiau pacio wedi cael eu hanfon, yn hysbysu'r Cleient nad ydynt wedi cyrraedd.

10.3. Rhaid gwneud y defnydd mwyaf posibl o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu wrth weithgynhyrchu cratiau, paledi, blychau, cartonau, deunydd clustogi a mathau eraill o ddeunydd pacio, lle mae'r rhain yn bodloni manylebau pacio eraill. Rhaid i ddeunydd pacio allu cael ei adfer i'w ailddefnyddio neu ei ailgylchu. Dylai manylebau deunydd pacio gael eu hadolygu o bryd i'w gilydd i sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau diangen yn bodoli ar ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu

## 11. Personél y Contractwr

11.1. Rhaid i'r Contractwr gydymffurfio'n llawn ag unrhyw drefniant diogelwch y bernir ei fod yn angenrheidiol gan y Cleient. Gall hyn gynnwys gwiriadau diogelwch ar bersonél y Contractwr.

11.2. Os a phan y'i cyfarwyddir gan y Cleient, bydd y Contractwr yn rhoi i'r Cleient restr o enwau a chyfeiriadau'r holl bersonau sydd neu a all fod ar unrhyw adeg yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt, gan nodi ym mha gymwysterau y maent yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt, a chan roi pa bynnag fanylion eraill a thystiolaeth arall pwy ydynt a pha bynnag dystiolaeth ategol arall y gall y Cleient ofyn yn rhesymol amdanynt. Bydd unrhyw ddata personol a ddarperir dan y cymal hwn, 11, yn cael ei rannu mewn modd sy'n cydymffurfio â deddfau a rheoliadau diogelu data perthnasol.

11.3. Bydd y Contractwr yn cymryd y camau y bydd y Cleient yn rhesymol yn eu gwneud yn ofynnol i atal pobl heb awdurdod rhag cael eu gadael i mewn i'r fangre. Os bydd y Cleient yn hysbysu'r Contractwr y dylai unrhyw berson beidio â

chael ei adael i mewn i'r fangre neu gael ei symud o'r fangre neu beidio â bod yn gysylltiedig â chyflawni neu gael ei symud o fod yn gysylltiedig â chyflawni'r Contract, bydd y Contractwr yn cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â hysbysiad o'r fath ac os bydd y Cleient yn gwneud hynny'n ofynnol bydd y Contractwr yn disodli unrhyw berson a symudwyd dan yr amod hwn â pherson arall sydd â chymwysterau addas a sicrhau bod unrhyw bàs a roddwyd i'r person a symudwyd yn cael ei ildio.

11.4. Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient ynghylch unrhyw anghydfod sydd ar ddod gyda'i gyflogeion a allai effeithio ar weithrediad y gwasanaethau.

## 12. Y Modd y Cyflawnir y Gwasanaethau

12.1. Ni fydd y Contractwr yn danfon unrhyw ddeunyddiau, cyfarpar na phethau eraill nac yn dechrau unrhyw waith yn y fangre heb gael cydsyniad y Cleient ymlaen llaw.

12.2. Ni fydd mynediad at y fangre'n fynediad ar gyfer y Contractwr yn unig, ond dim ond i'r graddau a fydd yn ei alluogi i gyflawni'r Gwasanaethau ar yr un pryd â chyflawni gwaith gan eraill. Bydd y Contractwr yn cydweithredu gyda pha bynnag bersonau eraill y gall y Cleient yn rhesymol ei gwneud yn ofynnol iddo gydweithredu gyda hwy.

12.3. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod y cyfleusterau'n cael eu defnyddio gan roi ystyriaeth ddyladwy i gadwraeth ac arfer rheolaeth rheoli ynni wrth ddarparu'r gwasanaethau.

12.4. Bydd gan y Cleient y pŵer ar unrhyw adeg wrth i'r Gwasanaethau fynd rhagddynt i orchymyn y canlynol yn ysgrifenedig:

(a) bod unrhyw ddeunyddiau sydd ym marn y Cleient naill ai'n beryglus, yn andwyol neu heb fod yn unol â'r contract yn cael eu symud o'r fangre, a/neu;

(b) bod deunyddiau'n cael eu hamnewid am rai priodol ac addas, a/neu;

(c) bod unrhyw waith nad yw, o ran deunyddiau neu grefftwaith, ym marn y Cleient yn unol â'r Contract yn cael ei symud a'i ailgyflawni'n briodol er gwaethaf unrhyw brawf blaenorol arno neu daliad interim amdano.

12.5. Ar ôl cwblhau'r Gwasanaethau bydd y Contractwr yn symud ei gyfarpar, offer a deunyddiau nas defnyddiwyd ac yn clirio o'r fangre yr holl sbwriel sy'n deillio o'r Gwasanaethau ac yn gadael y Fangre'n dwt ac yn daclus.

## 13. Amser Cyflawni

13.1. Bydd y Contractwr yn dechrau cyflawni'r Gwasanaethau ar y dyddiad a nodir yn yr Archeb Brynu a bydd yn eu cwblhau erbyn y dyddiad a nodir yn yr Archeb Brynu neu'n parhau i'w cyflawni am y cyfnod a nodir yn yr Archeb Brynu (pa un bynnag sy'n berthnasol). Mae amser yn hanfodol. Gall y Cleient, trwy hysbysiad ysgrifenedig, ei gwneud yn ofynnol i'r Contractwr gyflawni'r gwasanaethau ym mha bynnag drefn a benderfynir gan y Cleient. Yn niffyg hysbysiad o'r fath bydd y Contractwr yn cyflwyno pa bynnag raglenni gwaith ac adroddiadau cynnydd manwl y bydd y Cleient yn ei gwneud yn ofynnol eu cyflwyno o bryd i'w gilydd.

13.2. Y Contractwr fydd yn gyfrifol am roi cyfrif i Cyllid a Thollau EF am yr holl drethi a thollau perthnasol boed ar incwm neu wariant.

## 14. Deunyddiau a Roddir am Ddim

14.1. Lle mae'r Cleient, at ddiben y Contract, yn rhoi deunyddiau am ddim i'r Contractwr, bydd y deunyddiau hyn yn eiddo i'r Cleient ac yn aros yn eiddo iddo. Bydd y Contractwr yn cadw'r holl ddeunyddiau hynny mewn trefn dda a chyflwr da a dim ond mewn cysylltiad â'r Contract y bydd yn defnyddio'r deunyddiau hynny. Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient am unrhyw ddeunyddiau sydd dros ben ar ôl cwblhau'r Gwasanaethau a bydd yn eu gwaredu fel a gyfarwyddir gan y Cleient. Os gwastreffir y deunyddiau hynny o ganlyniad i grefftwaith gwael neu esgeulustod gan y Contractwr neu unrhyw gyflogeion, asiantau neu is-gontractwyr iddo, byddir yn gwneud iawn am hynny ar draul y Contractwr. Heb beryglu unrhyw hawliau sydd gan y Cleient, bydd y Contractwr yn danfon y deunyddiau hynny pa un a ydynt wedi cael eu prosesu ai peidio at y Cleient ar gais.

## 15. Archwilio

15.1. Bydd y Contractwr yn cadw ac yn cynnal, nes dwy flynedd ar ôl i'r Contract gael ei gwblhau, gofnodion sydd wrth fodd y Cleient o'r holl wariannau sy'n ad-daladwy gan y Cleient ac o'r oriau a weithiwyd a'r costau a gafwyd mewn cysylltiad ag unrhyw gyflogeion i'r Contractwr y talwyd amdanynt gan y Cleient ar sail codi tâl am amser. Os caiff gais i wneud hynny, bydd y Contractwr yn rhoi pa bynnag fynediad at y cofnodion hynny i'r Cleient neu ei gynrychiolwyr y gall y Cleient ei gwneud yn ofynnol ei roi mewn cysylltiad â'r Contract.

## 16. Rhoddion neu Daliadau Llwgr

16.1. Ni fydd y Contractwr yn cynnig nac yn rhoi, nac yn cytuno i roi, i unrhyw un o gyflogeion neu gynrychiolwyr y Cleient, unrhyw rodd neu gydnabyddiaeth o unrhyw fath, fel cymhelliad neu wobr am wneud neu ymatal rhag gwneud neu am fod wedi gwneud neu ymatal rhag gwneud, unrhyw weithred mewn perthynas â chael neu gyflawni'r Contract hwn neu unrhyw Gontract arall gyda'r Cleient neu am ddangos neu ymatal rhag dangos, ffafriaeth neu anffafriaeth i unrhyw berson mewn perthynas â'r Contract hwn neu unrhyw Gontract o'r fath. Tynnir sylw'r Contractwr at y tramgwyddau troseddol a grëwyd gan Ddeddf Llwgrwobrwyo 2010.

## 17. Patentau a Gwybodaeth

17.1. Bydd yn un o amodau'r Contract hwn, ac eithrio i'r graddau y mae'r Gwasanaethau'n ymgorffori dyluniadau a ddarparwyd gan y Cleient, na fydd y Gwasanaethau'n torri unrhyw batent, nod masnach, dyluniad cofrestredig, hawlfraint neu hawl arall o natur eiddo diwydiannol unrhyw drydydd parti a bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient rhag yr holl gamau cyfreithiol, hawliadau, gorchmynion, costau a threuliau y gall y Cleient eu dioddef neu eu cael o ganlyniad i dorri neu mewn cysylltiad â thorri'r amod hwn mewn unrhyw ffordd.

17.2. Mae'r holl hawliau (gan gynnwys perchnogaeth a hawlfraint) yn unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, lluniadau, patentau, modelau, dyluniadau neu ddeunyddiau eraill:

(a) a ddarperir neu y trefnir eu bod ar gael i'r Contractwr gan y Cleient yn cael eu haseinio drwy hyn i'r Cleient a byddant yn eiddo i'r Cleient yn llwyr.

(b) a baratowyd gan neu ar ran y Contractwr ar gyfer defnydd, neu ddefnydd bwriadedig, mewn perthynas â chyflawni'r Contract hwn, yn cael eu haseinio drwy hyn i'r Cleient a byddant yn eiddo i'r Cleient yn llwyr. Ni fydd y Contractwr yn defnyddio nac yn datgelu, a bydd yn sicrhau nad yw ei gyflogeion ac asiantau'n defnyddio nac yn datgelu (ac eithrio i'r graddau sy'n angenrheidiol i weithredu'r Contract hwn) heb gydsyniad ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw, unrhyw fanylebau, cyfarwyddiadau, cynlluniau, lluniadau, patentau, modelau, dyluniadau a deunyddiau eraill fel a grybwyllwyd uchod nac unrhyw wybodaeth arall (boed yn berthnasol i'r Contract hwn neu beidio) y gall y Contractwr eu cael yn unol neu oherwydd y Contract hwn, ac eithrio gwybodaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd fel arall ac nid oherwydd bod y ddarpariaeth hon wedi cael ei thorri, ac yn arbennig (ond heb beryglu natur gyffredinol yr uchod) ni fydd y Contractwr yn cyfeirio at y Cleient na'r Contract mewn unrhyw hysbyseb heb gydsyniad ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw.

17.3. Bydd darpariaethau'r amod hwn, sef amod 17, yn berthnasol tra pery'r Contract hwn ac ar ôl ei derfynu sut bynnag y cyfyd hynny.

## 18. Indemniad ac Yswiriant

18.1. Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient, ei gyflogeion ac asiantau rhag yr holl gamau cyfreithiol, hawliadau, gorchmynion, costau a threuliau a gafwyd gan neu a wnaed yn erbyn y Cleient, ei gyflogeion neu asiantau mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod neu anaf personol (gan gynnwys marwolaeth) sy'n codi o'r Contract hwn neu mewn cysylltiad ag ef.

18.2. Ac eithrio yn achos colled, difrod neu anaf personol (gan gynnwys marwolaeth) a ddioddefwyd gan un o gyflogeion y Contractwr (y bydd yr indemniad yn Amod 18.1 yn berthnasol iddi/iddo pa un a achoswyd y golled, y difrod neu'r anaf personol gan weithred neu anweithred esgeulus neu fwriadol gan y Cleient, neu unrhyw un o gyflogeion neu asiantau'r Cleient) ni fydd yr indemniad yn Amod 18.1 yn berthnasol i'r graddau yr achoswyd y golled, y difrod neu'r anaf gan weithred neu anweithred esgeulus neu fwriadol y Cleient, neu unrhyw un o gyflogeion neu asiantau'r Cleient.

18.3. Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient rhag unrhyw wariant mewn perthynas ag atgyweirio'r fangre neu ddisodli offer sy'n codi o ganlyniad i esgeulustod ar ran y Contractwr, ei gyflogeion, is-gontractwyr neu gontractwyr.

18.4. Lle y bo'n berthnasol i'r Cymal hwn bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient ar unwaith ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw ffaith neu fater a allai wneud y Cleient yn agored i gael ei erlyn.

18.5. Bydd y canlynol mewn grym gan y Contractwr a bydd yn ei gwneud yn orfodol i unrhyw is-gontractwr fod â hwy mewn grym:

(a) yswiriant rhwymedigaeth cyflogwr yn unol ag unrhyw ofynion cyfreithiol sydd mewn grym ar y pryd, a;

(b) yswiriant rhwymedigaeth gyhoeddus am ba bynnag swm a pha bynnag amrediad yswiriant yr ystyrir ei fod yn briodol yn nhyb y Contractwr ond gan yswirio o leiaf yr holl faterion sy'n ddarostyngedig i indemniadau neu rwymedigaethau digolledu dan yr amodau hyn mewn swm nad yw'n llai na £500,000 am unrhyw un digwyddiad ac yn ddiderfyn ar y cyfan, oni chytunir yn wahanol gan y Cleient yn ysgrifenedig.

18.6. Bydd y polisi neu bolisïau yswiriant y cyfeirir atynt ym mharagraff 18.5 gael ei/eu d(d)angos i'r Cleient pryd bynnag y bydd yn gofyn, ynghyd â thystiolaeth foddhaol o fod wedi talu'r premiymau.

## 19. Rhwymedigaethau Statudol

19.1. Bydd y Contractwr yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol sydd mewn grym ar y pryd. Bydd y Contractwr yn indemnio'r Cleient rhag yr holl gamau cyfreithiol, hawliadau, colledion, gorchmynion, costau a threuliau y gall y cleient eu dioddef neu eu cael o ganlyniad i dorri neu mewn cysylltiad â thorri'r rhwymedigaethau hyn mewn unrhyw ffordd.

## 20. Y Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol a Chyfrinachedd

20.1. Heb beryglu'r modd y cymhwysir Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1911 i 1989 i unrhyw wybodaeth gyfrinachol mae'r Contractwr yn cydnabod bod unrhyw wybodaeth gyfrinachol a gaiff gan neu mewn perthynas â'r Cleient, ei gyflogeion neu asiantau wrth gyflawni'r Contract hwn (neu a gaiff unrhyw berson a gyflogir neu sydd wedi'i hurio gan y Contractwr mewn cysylltiad â'r Contract hwn yn ystod cyflogaeth neu drefniant hurio o'r fath) yn eiddo i'r Cleient.

20.2. Ni fydd y Contractwr ond yn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol a gafwyd at ddiben cyflawni ei rwymedigaethau dan y contract hwn.

20.3. Bydd gwybodaeth gyfrinachol at ddibenion y Contract hwn yn golygu unrhyw wybodaeth y rhoddir mynediad i'r Contractwr ati neu y mae'n ei chael yn ystod cyfnod y Contract ar wahân i wybodaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd fel arall ac ni oherwydd bod y cymal hwn, sef cymal 20, wedi cael ei dorri.

20.4. Bydd darpariaethau'r cymal hwn, sef cymal 20, yn gymwys tra pery'r Contract ac ar ôl ei derfynu sut bynnag y cyfyd hynny.

## 21. Terfynu

21.1. Bydd y Contractwr yn hysbysu'r Cleient yn ysgrifenedig ar unwaith os ceir unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol:

(a) lle mae'r Contractwr yn unigolyn ac os cyflwynir deiseb ar gyfer methdaliad y Contractwr neu os gwneir gorchymyn methdaliad troseddol yn erbyn y Contractwr, neu ei fod yn gwneud unrhyw gompównd neu drefniant gyda neu er budd credydwyr, neu'n gwneud unrhyw drawsgludiad neu aseiniad er budd credydwyr, neu os penodir gweinyddwr i reoli ei faterion; neu

(b) lle nad yw'r Contractwr yn unigolyn ond yn ffỳrm, neu'n nifer o bersonau'n gweithredu gyda'i gilydd mewn unrhyw gymhwyster, os ceir unrhyw ddigwyddiad yn (a) neu (c) o'r Amod hwn mewn perthynas ag unrhyw bartner yn y ffỳrm neu

unrhyw un neu unrhyw rai o'r personau hynny neu os cyflwynir deiseb i ddirwyn y Contractwr i ben fel cwmni anghofrestredig; neu

(c) lle mae'r Contractwr yn gwmni, os yw'r cwmni'n cymeradwyo penderfyniad i'w ddirwyn i ben neu ei ddiddymu (heblaw at ddibenion uno neu ailgodi a hynny'n digwydd wedi hynny) neu os yw'r llys yn gwneud gorchymyn gweinyddu neu ddirwyn i ben, neu os yw'r cwmni'n gwneud compównd neu drefniant gyda'i gredydwyr, neu os penodir derbynnydd gweinyddol, derbynnydd neu reolwr gan gredydwr neu gan y llys, neu os cymerir meddiant ar unrhyw eiddo iddo dan delerau tâl nofiol

21.2. Os ceir unrhyw ddigwyddiadau a ddisgrifir ym mharagraff 21.1 neu, os bydd y Contractwr wedi torri'r Contract hwn mewn modd perthnasol ac (os gellir gwneud iawn am ei dorri yn y fath fodd) ac wedi methu â gwneud iawn am ei dorri yn y fath fodd o fewn deng niwrnod ar hugain i gyfarwyddyd ysgrifenedig gan y Cleient yn ei gwneud yn ofynnol gwneud hynny neu, lle mae'r Contractwr yn unigolyn, os bydd yn marw neu os bernir nad yw'n gallu rheoli ei faterion o fewn ystyr Deddf Galluedd Meddyliol 2005, bydd gan y Cleient hawl i derfynu'r Contract hwn trwy roi rhybudd i'r Contractwr ar unwaith. Gyda hynny, heb beryglu unrhyw hawliau eraill sydd ganddo, gall y Cleient ei hun gwblhau'r gwasanaethau neu drefnu eu bod yn cael eu cwblhau gan drydydd parti, gan ddefnyddio at y diben hwnnw (gan wneud lwfans teg a phriodol am hynny yn unrhyw daliad a wneir i'r Contractwr wedyn) yr holl ddeunyddiau, cyfarpar ac offer yn y Fangre sy'n perthyn i'r Contractwr, ac ni fydd y Cleient yn atebol am wneud unrhyw daliad pellach i'r Contractwr nes bod y gwasanaethau wedi cael eu cwblhau yn unol â gofynion y Contract, a bydd hawl ganddo i ddidynnu unrhyw gostau a gafwyd gan y Cleient o unrhyw swm sy'n ddyledus i'r Contractwr (gan gynnwys costau'r Cleient ei hun). Os yw cyfanswm y gost i'r Cleient yn fwy na'r swm (os o gwbl) sy'n ddyledus i'r Contractwr, bydd y Cleient yn gallu adfer y gwahaniaeth gan y Contractwr.

21.3. Yn ychwanegol at ei hawliau terfynu dan baragraff 21.2, bydd gan y Cleient hawl i derfynu'r Contract hwn trwy roi dim llai na deng niwrnod ar hugain o rybudd i'r perwyl hwnnw i'r Contractwr.

21.4. Ni fydd terfynu dan baragraffau 21.2 neu 21.3 yn peryglu nac yn effeithio ar unrhyw hawl i gamau cyfreithiol neu iawn a fydd wedi cronni neu a allai gronni gyda hynny i'r Cleient ac ni fydd yn effeithio ar weithrediad parhaus Amodau 17 ac 20

## 22. Adfer Symiau sy'n ddyledus

22.1. Lle bynnag dan y Contract hwn y mae unrhyw swm o arian yn adferadwy oddi ar neu'n daladwy gan y Contractwr, gellir didynnu'r swm hwnnw o unrhyw swm sy'n ddyledus bryd hynny, neu a all ddod yn ddyledus ar unrhyw adeg ddiweddarach i'r Contractwr dan y Contract hwn neu dan unrhyw gytundeb neu gontract arall gyda'r Cleient neu gydag unrhyw adran, asiantaeth neu unrhyw un o awdurdodau'r Llywodraeth.

## 23. Aseinio ac Is-Gontractio

23.1. Ni fydd y Contractwr yn aseinio nac yn is-gontractio unrhyw gyfran o'r Contract heb gydsyniad ysgrifenedig y Cleient ymlaen llaw. Ni fydd is-gontractio unrhyw

ran o’r Contract yn rhyddhau’r Contractwr o unrhyw rwymedigaeth na dyletswydd y gellir ei phriodoli iddo dan y Contract na’r amodau hyn.

23.2. Bydd y Contractwr, os gofynnir, yn darparu rhestr ar gyfer y Cleient o’r holl bersonél sy’n cael eu hurio gan ei is-gontractwyr ac unrhyw newidiadau dilynol iddi

23.3. Lle mae’r Cleient wedi rhoi cydsyniad i osod is-gontractau, bydd copi o bob is-gontract yn cael ei anfon gan y Contractwr at y Cleient ar unwaith pan gaiff ei ddyroddi

## 24. Talu’n Brydlon i Is-Gontractwyr

24.1. Lle mae’r Contractwr yn ymrwymo i is-gontract gyda chyflenwr neu gontractwr at ddiben cyflawni’r Contract, bydd yn peri bod teler yn cael ei gynnwys yn yr is-gontract hwnnw sy’n ei gwneud yn ofynnol bod taliad yn cael ei wneud i’r cyflenwr neu’r contractwr o fewn cyfnod penodedig nad yw’n hwy na 30 diwrnod o gael anfoneb ddilys fel a ddiffinnir gan ofynion yr is-gontract

## 25. Hysbysiadau

25.1. Bydd unrhyw hysbysiad a roddir o dan y Contract neu mewn perthynas ag ef yn ysgrifenedig a bydd yn cael ei ddanfon â llaw neu’n cael ei anfon drwy’r post fel eitem gofrestredig neu gan ddefnyddio’r gwasanaeth danfoniad cofnodedig at y parti perthnasol yng nghyfeiriad y parti a ddangosir ar yr Archeb Brynu, neu i ba bynnag gyfeiriad arall y gall y parti hysbysu yn ei gylch yn ysgrifenedig, a byddir yn ystyried ei fod wedi cael ei dderbyn

(a) os caiff ei ddanfon â llaw, ar y diwrnod y’i danfonwyd;

(b) os caiff ei anfon drwy’r post gan ddefnyddio post dosbarth cyntaf rhagdaledig, ddau ddiwrnod busnes ar ôl ei bostio;

(c) os caiff ei anfon gan ddefnyddio’r gwasanaeth danfoniad cofnodedig, ar y dyddiad y’i derbyniwyd â llofnod.

## 26. Cyflafareddu

26.1. Bydd yr holl anghydfodau, gwahaniaethau neu gwestiynau rhwng y partïon i’r Contract mewn perthynas ag unrhyw fater neu beth sy’n codi allan o’r Contract neu sy’n ymwneud ag ef, heblaw am faterion lle bydd penderfyniad y Cleient, dan delerau’r Contract hwn, yn derfynol a phendant, ac eithrio lle gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer cyflafareddu yn rhywle arall yn y Contract, yn cael eu cyfeirio at un cyflafareddwr i gael eu cytuno gan y partïon neu, yn niffyg cytundeb, gan Lywydd Sefydliad Siartredig y Cyflafareddwyr, yn unol â darpariaethau Deddf Cyflafareddu 1996 neu unrhyw addasiad iddi neu ailddeddfiad ohoni.

## 27. Polisi Dim Ysmygu

27.1. Mae gan y Cleient bolisi dim ysmygu yn ei fangre. Bydd y Contractwr yn sicrhau bod ei gyflogeion yn ymlynu wrth y polisi dim ysmygu wrth gyflawni unrhyw wasanaethau ym Mangre’r Cleient. Bydd unrhyw fethiant gan bersonél y

Contractwr i gydymffurfio â pholisi dim ysmygu'r Cleient yn arwain at ofyn i bersonél y Contractwr adael y Fangre a'r Contractwr fydd yn ysgwyddo unrhyw golled sy'n deillio o'r cam gweithredu hwn.

## 28. Penawdau

28.1. Ni fydd penawdau'r cymalau a'r amodau yn y Contract hwn yn effeithio ar y modd y'u dehonglir.

## 29. Cyfraith Lywodraethol

29.1. Bydd yr Amodau hyn yn cael eu llywodraethu gan a'u dehongli yn unol â chyfraith Cymru a Lloegr (fel y mae'n berthnasol yng Nghymru) ac mae'r Contractwr drwy hyn yn ymddarostwng yn ddi-droi'n-ôl i awdurdodaeth llysoedd Cymru a Lloegr (sy'n eistedd yng Nghaerdydd). Ni fydd ymddarostwng i'r awdurdodaeth honno'n cyfyngu (ac ni ddylid dehongli bod hynny'n gyfystyr â chyfyngu) ar hawl y Cleient i gychwyn achos yn erbyn y Contractwr mewn unrhyw lys arall ag awdurdodaeth gymwys, ac ni fydd cychwyn achos mewn unrhyw awdurdodaeth unigol neu fwy nag un awdurdodaeth yn rhagwahardd rhag cychwyn achos mewn unrhyw awdurdodaeth arall boed yn gydamserol neu beidio.

## 30. Contractau Eraill

30.1. Lle cytunwyd ar amodau penodol yn y contract, megis ar gyfer ymgynghoriaeth neu waith adeiladu, a'u bod yn gwrthdaro â'r amodau hyn, yr amodau penodol fydd drechaf.

**Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English**